a d n a b o d b a r d d

SEFYDLWYD *BARDD PLANT CYMRU* yn y flwyddyn 2000 gan Gyngor Llyfrau Cymru, Planed Plant S4C ac Urdd Gobaith Cymru pan ddewiswyd Myrddin ap Dafydd fel y bardd cyntaf i dderbyn yr anrhydedd. Y bwriad y tu ôl i sefydlu *Bardd Plant Cymru* yw codi proffil barddoniaeth ymysg pobl ifanc, a'u hannog i greu a mwynhau barddoniaeth.

ELENI DEWISWYD **MEI MAC** YN *FARDD PLANT CYMRU*. Bydd yn ysgrifennu nifer o gerddi yn ystod y flwyddyn ac yn teithio o gwmpas y wlad yn ymweld ag ysgolion ac yn annog plant i ysgrifennu barddoniaeth. Eisoes ysgrifennodd y gerdd *Y Pethau Bychain* ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2001. Ar y diwrnod hwnnw, a oedd hefyd yn Ddiwrnod y Llyfr, adroddwyd y gerdd gan dros 5,000 o blant ar hyd a lled Cymru i ddathlu'r ddau achlysur.

M E I M A C

b a r d d p l a n t c y m r u 2 0 0 1

FFEIL-O-FFAITH

Ganed . . . . . Caernarfon
Byw . . . . . Llanwnda
Gwaith . . . . . Dylunio ar gyfrifiadur a sgrifennu
Diddordebau . . . . Barddoni i blant ac oedolion, pysgota a chwarae pêl-droed 5-bob-ochr
Cyhoeddiadau . . . Nifer o gerddi i blant mewn llyfrau barddoniaeth Llyfrau Lloerig, Gwasg Carreg Gwalch.*Y Llong Wen* (cyfrol o farddoniaeth) Gwasg Carreg Gwalch
Gwobrau . . . . . Cadair Eisteddfod Genedlaethol 1993

BWYTA MORON YN NANHORON

Mae Wil o Nanhoron yn hoff iawn o foron,
Rhai amrwd, rhai bychan a mawr,
Mae chwaer Anti Beti yn sglaffio sbageti –
Gall lyncu naw paced mewn awr!

Mae Eban ac Ana yn bwyta banana
Bob bore a phob amser te,
A Rheinallt Cadwalad' yn mynnu cael salad –
Wrth fwyta mae'n gweiddi hwrê.

Mae Emrys ac Aled yn fois am bys caled
A'u cyfri nhw hefyd, pob un,
A Jim o Bwllheli, mae o'n prynu jeli
A'i gadw i gyd iddo'i hun.

Ond os ydy Sara yn cael pwdin bara,
mae dyn sydd yn byw lawr y stryd
heb hyd yn oed enw,
ac felly 'dyw hwnnw
yn yfed na bwyta dim byd!

Y TEDI BLÊR

Mewn gwaelod bocs yn Oxfam
unig oedd, a'i ben yn gam,
ei wên drist, yn we drosto
fel tae fan hyn ers cyn co';
yn sbâr ar lawr sbwriel oedd,
a thedi di-werth ydoedd.

Ond i glaf mewn ystafell
draw yn nhyndra Bosnia bell,
yn y bocs roedd aur y byd,
nefoedd ar ddaear hefyd;
ychwanego nad anrheg oedd,
i'r wyth oed, rhyw wyrth ydoedd.

Allan o *Nadolig, Nadolig*, Gwasg Carreg Gwalch, 1995 £3.50